

Cerflun o'r Capten Godfrey Morgan (Is-iarll 1af Tredegar yn ddiweddarach) ar 'Syr' Briggs, y ddau wedi goroesi Brwydr Balaclava yn 1854, Gerddi'r Orsedd, Caerdydd (© Robin Forster). **Gyferbyn uchaf:** Y Drymiwr Ifanc ar y Gofeb i Gatrawd Lerpwl y Brenin, St John's Gardens, Lerpwl (© Elaine Davey). **Gyferbyn isaf:** Syr William Goscombe John yn cerflunio Sior V (© Yr Oriel Bortreadau Genedlaethol).

# Athrylith Cymreig a Anghofiwyd: William Goscombe John

**Elaine Davey** yn edrych ar yrfa anhygoel Syr William Goscombe John fel cerflunydd sy'n cael ei edmygu am ddyfnder seicolegol ei gerfluniau cyhoeddus niferus.



Roedd Syr William Goscombe John yn gerflunydd blaenllaw yn ystod degawdau cynnar yr ugeinfed ganrif ond aeth yn angof pan ddaethpwyd i ystyried ei gerfluniau yn rhai hen ffasiwn. Mae'n haeddu cydnabyddiaeth fel un o artistiaid mwyaf talentog Cymru, wedi'i ddylanwadu gan Rodin ac Alfred Gilbert ac un a etholwyd i'r Academi Frenhinol yn 1909. Daeth o wreiddiau gweddol ddinod i chwarae rhan bwysig ym myd celf a chrefft y cyfnod Fictoraidd Uchel a'r cyfnod Edwardaidd.

Rhoddwyd yr enw syml William John iddo pan anwyd ef ar 21 Chwefror 1860, yn fab i grefftwr o'r enw Thomas John o Lantriddyd a'i wraig Elizabeth, a oedd yn dod o Gaerloyw. Roeddent yn byw mewn tŷ bychan yn Nhreganna, Caerdydd. Ers yn un ar ddeg oed, bu John yn mynychu dosbarthiadau modelu a lluniadu yn Ysgol Gelf Caerdydd, a sefydlwyd yn 1865, y flwyddyn y cyfarfu 3ydd Ardalydd Bute â William Burges a dechrau gweddnewid Castell Caerdydd yn 'rhywbeth gwirioneddol ganoloesol'. Roedd tad John yn gweithio ar gerfiadau yn y castell ac ymunodd John â gweithdai Bute i hyfforddi fel cerfiwr pren. Roedd ef a'i dad hefyd yn aelodau o gôr Cadeirlan Llandaf, lle'r oedd Dante Gabriel Rosetti, William Morris ac Edward Burne-Jones yn gweithio ar waith adfer gan J.P. Seddon, gan roi cyfle i John ddod i gysylltiad yn gynnar â'r Adfywiad Gothig, y Cyn-Raffaëliaid a'r mudiad Celf a Chrefft.

Sylwyd ar ddawn John gan y cerflunydd Thomas Nicholls, yn Lambeth, a oedd yn gwneud modelau cerrig yn unol â dyluniadau Burges, a chymerodd ef ymlaen fel disgybl-gynorthwywr. Yr adeg hynny, tra'n byw gyda'i

ewythr a'i gefnder – y ddau hynny hefyd o'r enw William John – yr aeth John ati i ychwanegu Goscombe at ei enw. Mynychodd ddosbarthiadau nos yn Ysgol Gelf Lambeth a darganfu'r modelu naturiolaidd cysylltiedig â cherflunwyr fel Alfred Gilbert a alwyd yn fudiad Cerflunio Newydd. O fewn tair blynedd, roedd John wedi symud ymlaen i Ysgolion yr Academi Frenhinol, a bu modd iddo sefydlu ei stiwdio ei hun ar ôl ennill Ysgoloriaeth Landseer, yn 1887.

Roedd teithiau astudio i Ewrop yn cynnwys un a ariannwyd yn rhannol gan Ardalydd Bute. Yn 1889, enillodd John Fedal Aur yr Academi Frenhinol am *Parting* – ei waith llawn emosiwn a oedd yn dangos cardotyn gyda chorff ei fab, ar ffurf Pietá. Fe wnaeth Frederic, yr Arglwydd Leighton a Syr Edward Burne-Jones helpu John i drefnu amserlen ar gyfer yr ysgoloriaeth deithio gysylltiedig, ac arweiniodd hyn at John yn rhentu stiwdio ym Mharis. Wedi cwrdd â Martha Weiss, merch i ysgythrwr o'r Swistir, ar ei ymweliad cyntaf, priododd â hi yn 1890, y flwyddyn yr enillodd Fedal Aur yn Arddangosfa Ryngwladol Paris. Dychwelodd y ddau i Lundain ym 1891 ac ymgartrefu yn St. John's Wood, lle bu John yn byw am y 51 mlynedd nesaf.

Enillodd John enw da fel medalydd, yn enwedig am fedalau'r Eisteddfod, a chyfrannodd at adfywiad y gelfyddyd hon. Roedd ei gomisiynau yng Nghymru yn cynnwys yr allor ogoneddus yn Eglwys Sant Ioan yng Nghaerdydd, a'i gerflun o nawddsant Ardalydd Bute, *Ioan Fedyddiwr*, a enillodd Fedal Aur arall yn y Paris Exposition Universelle yn 1900. Mae'r *Corn Hirlas*, a gomisiynwyd gan yr Arglwydd Tredegar, yn dangos diddordeb parhaus John yn niwylliant Cymru, a chafodd ei ddarn diploma, *The Elf*, ei ddisgrifio gan George Clausen fel 'y gwaith' yn Arddangosfa Haf 1898 am ei ymdriniaeth naturiolaidd ysgafn. Wedi'i ethol yn Aelod Cyswllt yr Academi Frenhinol yn 1899, dechreuodd John ennill comisiynau ar gyfer cofebau cyhoeddus. Enillodd ei fodel ar gyfer cerflun ar ei eistedd o *7fed Dug Dyfnaint*, yn ei urddwisgoedd ysblennydd, Fedal Aur (2il ddosbarth) yn Salon Paris 1901 – y cerflunydd Prydeinig cyntaf i gyflawni'r gamp hon.

Yng Nghymru, cyflawnodd John gomisiynau am gerfluniau cyhoeddus o efydd a marmor, a phenddelwau o ffigurau nodedig, hyd yn oed yn cerflunio John Cory, er gwaethaf y drwgdeimlad rhwng y diwydianwyr rhyddfrydol ac ystâd bwerus Bute. Roedd ystod ei gynnyrch yn cwmpasu'r cerflun deinamig o'r arweinydd Griffith Rhys Jones (a adwaenir fel *Caradog*) yn Aberdâr a merch hanner noeth yn edrych yn anobeithiol oherwydd marwolaeth *W.R.H. Powell*. Ailddefnyddiodd John ei hystum ar gyfer cofeb Syr Arthur Sullivan yn y Victoria Embankment Gardens, ac fe'i disgrifiwyd fel 'y cerflun mwyaf erotig yn Llundain'.

Roedd gwaith John yn cyd-daro ag adfywiad cenedlaetholgar yng Nghymru, a ddathlwyd gyda phasiant mawreddog yng



Nghaerdydd gydag Ardalyddes Bute yn chwarae Bonesig Cymru ac Is-iarll Tredegar yn portreadu Owain Glyndŵr. Pan arwisgwyd Tywysog Cymru yng Nghastell Caernarfon yn 1911, dyluniodd John y Regalia, a wnaed gan Garrard's o aur Cymru. Fe wnaeth y Brenin Charles ei ail-ddefnyddio yn ei Arwisgiad yn 1969, ac eithrio'r Goronig yr oedd Edward, Dug Windsor, wedi mynd â hi gydag ef i'w alltudiaeth. Cafodd John ei urddo'n farchog am ei wasanaeth i Gymru yn yr Arwisgiad yn 1911 ac mae wedi cael ei ddisgrifio fel artist cenedlaethol a 'fachodd ar y cyfle i adfywio hunaniaeth Gymreig i greu arddull sy'n addas ar gyfer sefydliadau ac arwyr newydd Cymru'.

Yn y blynyddoedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, derbyniodd John gomisiynau ar gyfer cerfluniau ar draws yr Ymerodraeth, gan



gynnwys cerflun marchogol o *Iarll Minto*, Rhaglaw a Llywodraethwr Cyffredinol, yn Kolkata (Calcutta), India, a cherflun enfawr o'r *Brenin Edward VII* ar y Grand Parade yn Cape Town yn Ne Affrica. Creodd gerfluniau Edward VII a'r Frenhines Alexandra ar gyfer tu blaen Amgueddfa Victoria ac Albert, a chreodd blaciau a cherfluniau ar gyfer Abaty Westminster, Eglwys Gadeiriol St Paul a Chastell Windsor.

Yn Lerpwl, mae *The Monument to the King's Liverpool Regiment* yn coffáu Brwydr Dettingen, y tro diwethaf i frenin – Siôr II – arwain ei filwyr i frwydr. Mae ei ensemble yn cynnwys *The Drummer Boy*, a arddangoswyd yn yr Academi Frenhinol a Salon Paris ym 1907. Comisiynwyd John i ddylunio'r *Memorial to the Heroes of the Marine Engine Room*, a gynlluniwyd yn wreiddiol i goffáu 32 o beirianwyr yr SS Titanic ond a ehangwyd i gwmpasu'r holl farwolaethau mewn ystafelloedd peiriannau morol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Dyluniodd y *Port Sunlight Memorial* ar gyfer pentref model y Barwn Leverhulme yng Nghilgwri, gan goffáu 503 o weithwyr Lever Brothers a fu farw yn y rhyfel. Ar raddfa enfawr ac yn un o ddim ond 20 o henebion Gradd I Prydeinig, ei thema oedd Amddiffyn y Deyrnas, gan ganiatáu i ddelweddau o fenywod a phlant gael eu cynnwys. Roedd Pevsner o'r farn ei bod yn gofeb 'wirioneddol wefreiddiol' ac yn 'osgoi sentimentaliaeth'.

Comisiynodd Syr George a'r Fonesig Renwick gofeb i goffáu codi Bataliynau Tiriogaethol Ffiwsilwyr Northumberland a dychweliad eu pum mab o'r rhyfel yn ddiogel. Mae *The Response* ar dir Eglwys St Thomas yn Barras Bridge, Newcastle upon Tyne, gyda'i bortread o ymgasglu'r Ffiwsilwyr. Fe'i disgrifiwyd gan gyn Gyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Ryfel yr Ymerodraeth fel 'un o'r ensembles cerfluniol gorau ar unrhyw gofeb Brydeinig'.

Roedd comisiynau niferus John ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf ar gyfer penddelwau a cherfluniau yn cynnwys penddelw marmor o *Andrew Carnegie* yn y Palas Heddwch yn yr Hâg a delw efydd gorweddog a hyfryd o fanwl o'r *Esgob Edward Bevan*, a wnaed ar gyfer Eglwys Gadeiriol Aberhonddu pan oedd John yn 74 oed. Roedd John yn un o gymwynaswyr mawr Amgueddfa Genedlaethol Cymru, yn cyflwyno dros hanner cant o ddarnau o'i weithiau ei hun, a gweithiau celf eraill, gan gynnwys y cerflun Icarus gan Alfred Gilbert.

Bu farw yn 1952, yn 92 oed, a chafodd ei gladdu ym Mynwent Kensal Green, yn y beddrod a ddyluniodd ar gyfer ei wraig yn 1923. Yn anffodus, mae ei gerflun coffa wedi cael ei ddwyn, a cholled arall yw cerflun marchogol John o'r Cadfridog Syr Stanley Maude, a osodwyd yn Baghdad yn 1923 ac a dynnwyd i lawr yn ystod Chwyldro 1958. ●

Dr Elaine Davey yw cadeirydd Cymdeithas Fictoraidd Cymru.